

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
9 Rhagfyr 2025

RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2025 (“y Rheoliadau”) yn darparu ar gyfer rhyddhad trosiannol i gynorthwyo trethdalwyr y mae ailbrisiad ardrethi annomestig 2026 yn effeithio arnynt.
- 1.2 Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi rheolau sydd i'w defnyddio i gyfrifo'r swm a godir ar gyfer hereditamentau cymwys sydd â chynnydd yn eu rhwymedigaeth ardrethi annomestig o fwy na £300, o ganlyniad i'r ailbrisiad. Mae'r Rheoliadau yn gweithredu drwy leihau rhwymedigaeth trethdalwyr cymwys, gan ganiatáu i'w cynnydd gael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o ddwy flynedd yn dilyn yr ailbrisiad.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 58 a 143A(2)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”). Mae adran 58 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi rheolau i lywodraethu'r swm a godir ar gyfer eiddo penodol. Mae adran 143A(2)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i arfer eu pwerau gwneud rheoliadau yn wahanol mewn perthynas ag achosion gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o achosion.
- 3.2 Mae adran 58(8) o Ddeddf 1988 yn darparu bod rhaid i reoliadau a wneir o dan adran 58 ddod i rym cyn 1 Ionawr yn union cyn y flwyddyn ariannol y maent yn gymwys iddi. Er mwyn cael effaith mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2026-27, rhaid i'r Rheoliadau ddod i rym cyn 1 Ionawr 2026.
- 3.3 Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Bydd y Rheoliadau yn cynorthwyo trethdalwyr cymwys y cynyddir eu rhwymedigaeth ardrethi annomestig fwy na £300, yn dilyn llunio'r rhestr ardrethi annomestig newydd ar 1 Ebrill 2026. Bydd gan drethdalwyr cymwys hawl i gael gostyngiad graddol mewn unrhyw gynnydd canlyniadol yn eu rhwymedigaeth dros gyfnod o ddwy flynedd (gostyngiad o 67% yn 2026-27, a 34% yn 2027-28).
- 4.2 Gallai rhyddhad trosiannol fod yn gymwys i hereditamentau diffiniedig (unedau o eiddo ag asesiad ardrethu annomestig). Mae rheoliad 3 yn pennu bod rhaid i hereditament diffiniedig fod wedi'i ddangos ar restr ardrethu leol neu ganolog ar 31 Mawrth 2026 (y diwrnod cyn i'r rhestrau newydd a lunnir ar 1 Ebrill 2026 gael effaith), ar y diwrnod perthnasol ac ar bob diwrnod

rhyngddynt. Mae hyn yn golygu y bydd rhyddhad trosiannol yn peidio â bod yn gymwys i unrhyw hereditament sy'n cael ei dynnu ymaith o restr ardrethu ar 1 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny. Ni fydd yn gymwys ychwaith i hereditamentau newydd (gan gynnwys y rhai sy'n codi yn sgil rhannu neu uno hereditamentau a restrwyd yn flaenorol).

- 4.3 Mae rheoliadau 4 a 5 yn pennu cyfrifiadau rhagarweiniol sy'n ofynnol i sefydlu'r cymhwysedd a'r hawl i gael rhyddhad trosiannol. Mae'n angenrheidiol pennu'r rhwymedigaeth ar gyfer hereditament diffiniedig ar y diwrnod cyn ac ar y diwrnod y llunnir rhestrau ardrethu newydd (31 Mawrth a 1 Ebrill 2026).
- 4.4 Y rhwymedigaeth sylfaenol ("RhS") ar gyfer hereditament diffiniedig yw'r rhwymedigaeth flynyddol a gyfrifir yn seiliedig ar y swm a godir ar gyfer 31 Mawrth 2026. Cyfrifir RhS yn unol ag adran 43 (ar gyfer hereditamentau a feddiennir ar restr leol) neu adran 54 (ar gyfer hereditamentau ar restr ganolog) o Ddeddf 1988, er mwyn ystyried unrhyw ryddhad statudol a allai fod yn gymwys. Nid oes unrhyw gyfrifiad ar gyfer RhS yn seiliedig ar adran 45 o Ddeddf 1988 (ar gyfer hereditamentau heb eu meddiannu ar restr leol), gan nad yw hereditamentau heb eu meddiannu ar 31 Mawrth 2026 yn gymwys i gael rhyddhad trosiannol.
- 4.5 Y swm tybiannol a godir ("STG") ar gyfer hereditament diffiniedig yw'r rhwymedigaeth flynyddol a gyfrifir yn seiliedig ar y swm a godir ar gyfer 1 Ebrill 2026. Cyfrifir STG yn unol ag adran 43, adran 45 neu adran 54 o Ddeddf 1988, fel y bo'n briodol, er mwyn ystyried unrhyw ryddhad statudol a allai fod yn gymwys. Mae adran 45 o Ddeddf 1988 yn berthnasol i gyfrifo STG, gan y gall hereditament heb ei feddiannu ar 1 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny fod yn gymwys i gael rhyddhad trosiannol, ar yr amod ei fod wedi'i feddiannu ar 31 Mawrth 2026.
- 4.6 Pennir STG yn seiliedig ar y ffiniau sy'n gymwys ar 1 Ebrill 2026. Defnyddir hyn i bennu faint o ryddhad trosiannol a fydd yn gymwys ym mhob blwyddyn. Nid yw STG yn cael ei ailgyfrifo ar 1 Ebrill 2027. Bydd hyn yn sicrhau y bydd yn ofynnol i'r trethdalwr dalu costau unrhyw gynnydd yn y lluosydd yn 2027-28. Mae'r hawl i ryddhad a gyfrifir ar 1 Ebrill 2026 yn cael ei ddiynnu o'r swm a godir am y diwrnod perthnasol.
- 4.7 Dim ond os bydd gostyngiad yn y swm a godir (a gyfrifir yn unol ag adran 43, adran 45 neu adran 54 o Ddeddf 1988) ar gyfer hereditament yn ystod y cyfnod rhyddhad trosiannol y bydd STG yn cael ei ailgyfrifo. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, o ganlyniad i gynnig neu apêl lwyddiannus i ostwng gwerth ardrethol yr hereditament. Mewn achos o'r fath, bydd STG yn cael ei ailgyfrifo gan ddefnyddio'r swm newydd a godir o'r dyddiad y caiff y newid effaith.
- 4.8 Mae rheoliad 6 yn pennu'r amodau y mae rhaid eu bodloni er mwyn i hereditament diffiniedig fod yn gymwys i gael rhyddhad trosiannol. Rhaid i'r hereditament:

- bod â chynnydd mewn rhwymedigaeth (STG > RhS) o fwy na £300;
- cael yr un trethdalwr ar y diwrnod perthnasol ag a oedd yn drethdalwr ar 31 Mawrth 2026 (os bydd person gwahanol yn dod yn drethdalwr, bydd y rhyddhad yn peidio â bod yn gymwys);
- bod wedi'i feddiannu (gan yr un trethdalwr y cyfeirir ato uchod) ar 31 Mawrth 2026;
- peidio â bod yn ddarostyngedig i ddosraniad o dan adran 44A o Ddeddf 1988 (ar gyfer eiddo a feddiennir yn rhannol).

- 4.9 Mae rheoliadau 7 i 12 yn nodi'r rheolau ar gyfer cyfrifo'r swm a godir i gyfrif am yr hawl i ryddhad trosiannol ar gyfer hereditament diffiniedig. Y swm a godir ar gyfer y diwrnod perthnasol yw'r swm a gyfrifir yn unol ag adran 43, adran 45 neu adran 54 o Ddeddf 1988, fel y bo'n briodol, wedi'i ostwng yn ôl yr hawl i ryddhad trosiannol ar gyfer pob diwrnod o'r flwyddyn ariannol berthnasol (o dan ba un bynnag o reoliadau 10 i 12 sy'n gymwys). Os byddai gostwng y swm a godir yn arwain at ffigur negyddol, yna bydd y swm a godir yn sero.
- 4.10 Mae rheoliad 10 yn darparu'r cyfrifiad ar gyfer y gostyngiad yn y swm a godir ar gyfer pob diwrnod perthnasol yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dechrau â 1 Ebrill 2026. Mae'r swm dyddiol a godir yn cael ei ostwng yn ôl 67% o'r cynnydd mewn rhwymedigaeth a fyddai fel arall yn digwydd rhwng 31 Mawrth a 1 Ebrill 2026 (STG llai RhS). Mae hyn yn golygu y bydd trethdalwr cymwys yn talu traean (33%) o'i gynnydd mewn rhwymedigaeth yn y flwyddyn gyntaf ar ôl llunio'r rhestr ardrethu newydd.
- 4.11 Mae rheoliad 11 yn darparu'r cyfrifiad ar gyfer y gostyngiad yn y swm a godir ar gyfer pob diwrnod perthnasol yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dechrau â 1 Ebrill 2027. Mae'r swm dyddiol a godir yn cael ei ostwng yn ôl 34% o'r cynnydd mewn rhwymedigaeth a fyddai fel arall yn digwydd rhwng 31 Mawrth a 1 Ebrill 2026 (STG llai RhS). Mae hyn yn golygu y bydd trethdalwr cymwys yn talu dwy ran o dair (66%) o'i gynnydd mewn rhwymedigaeth yn yr ail flwyddyn ar ôl llunio'r rhestr ardrethu newydd.
- 4.12 Mae rheoliad 12 yn darparu, ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau â 1 Ebrill 2028, y caiff y swm a godir ei ostwng yn ôl sero drwy ryddhad trosiannol, er y gall rhyddhadau eraill barhau i fod yn gymwys.
- 4.13 Mae'r Rheoliadau yn dirymu Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022 na fyddant yn ofynnol o 1 Ebrill 2026 ymlaen, gan y bydd y rhestr ardrethu berthnasol yn cael ei chau.

5. Ymgynghori

- 5.1 Ni chafodd sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 ei chadarnhau cyn Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU ar 26 Tachwedd 2025. I gael effaith o 1 Ebrill 2026 ymlaen, rhaid i'r Rheoliadau fod mewn

grym cyn 1 Ionawr 2026. O ganlyniad i'r cyfyngiadau amseru hyn, nid yw'r Rheoliadau wedi bod yn destun ymgynghoriad. Mae'r Rheoliadau o fudd i drethdalwyr ac maent yn seiliedig ar y rhai a ddatblygwyd i ddarparu rhyddhad trosiannol yn dilyn ailbrisiad 2023. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y byddant yn cyflawni'r bwriad polisi.

RHAN 2: ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau

6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno tri opsiwn mewn perthynas â darparu rhyddhad trosiannol yn dilyn ailbrisiad ardrethi annomestig 2026. Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim;
- Opsiwn 2 – Darparu rhyddhad trosiannol i eiddo bach cymwys (gyda gwerthoedd ardrethol is na lefel benodedig cyn yr ailbrisiad); ac
- Opsiwn 3 – Darparu rhyddhad trosiannol i bob eiddo cymwys (gwneud y Rheoliadau).

7. Costau a manteision

Opsiwn 1 – Gwneud dim

7.1 Ni fyddai angen deddfwriaeth ar gyfer Opsiwn 1. Ni fyddai unrhyw ryddhad trosiannol yn cael ei ddarparu a byddai rhaid i unrhyw drethdalwr gyda chynnydd yn ei rwymedigaeth ardrethi annomestig yn dilyn yr ailbrisiad dalu ei rwymedigaeth lawn (yn ddarostyngedig i unrhyw ryddhad presennol) o 1 Ebrill 2026 ymlaen.

Costau

7.2 Hwn yw'r opsiwn sylfaenol ac felly ni fyddai unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru na'r awdurdodau lleol. Byddai'n ofynnol ar unwaith i drethdalwyr dalu'n llawn unrhyw gynnydd mewn rhwymedigaeth yn dilyn yr ailbrisiad.

Manteision

7.3 Pe na bai rhyddhad trosiannol yn cael ei ddarparu, byddai'r gweithdrefnau presennol yn cael eu cadw, gan osgoi unrhyw feichiau gweinyddol newydd. Ni fyddai angen diwygiadau i systemau meddalwedd yr awdurdodau lleol ac ni fyddai costau gweinyddol cysylltiedig yn sgil cymhwyso rhyddhad trosiannol i filiau trethdalwyr cymwys.

7.4 Byddai peidio â darparu rhyddhad trosiannol yn sicrhau bod y system ardrethi annomestig yn dal yn gymharol syml, sy'n golygu bod trethdalwyr yn gallu cyfrifo eu rhwymedigaeth yn hawdd o flwyddyn i flwyddyn. Ni fyddai ychwaith unrhyw wanhau ar yr egwyddor o ailbrisiadau rheolaidd, y bwriedir iddynt sicrhau bod rhwymedigaethau ardrethi annomestig yn adlewyrchu'n gywir yr amrywiad mewn gwerthoedd rhent yn y farchnad eiddo ac i aildosbarthu ardrethi a delir yn unol â hynny.

Anfanteision

- 7.5 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cefnogi nod polisi Llywodraeth Cymru o gefnogi trethdalwyr y bydd eu rhwymedigaeth ardrethi annomestig yn cynyddu o ganlyniad i'r ailbrisio.

Opsiwn 2 – Darparu rhyddhad trosiannol i eiddo bach cymwys

- 7.6 Opsiwn 2 fyddai gwneud Rheoliadau i ddarparu rhyddhad trosiannol sydd wedi'i dargedu at fusnesau bach y mae'r ailbrisio yn effeithio arnynt. Byddai'r rhyddhad trosiannol hwn yn rhoi i drethdalwyr cymwys, a oedd yn meddiannu hereditament a oedd â gwerth ardrethol cyn ailbrisio islaw swm penodedig (e.e. £20,000) ac a welodd eu rhwymedigaeth yn cynyddu fwy na £300 yn dilyn ailbrisio, gynnydd graddol yn eu rhwymedigaeth dros gyfnod o ddwy flynedd.

Costau

- 7.7 Byddai'r opsiwn hwn yn cefnogi nifer mawr o drethdalwyr ar gyfer eiddo llai. Er enghraifft, amcangyfrifir y byddai **17,000 o eiddo** yn gymwys i gael rhyddhad wedi'i dargedu gan ddefnyddio trothwy gwerth ardrethol o £20,000, ar gost i Lywodraeth Cymru o £12m yn 2026-27 a £6m yn 2027-28. Byddai rhyddhad yn cael ei gymhwyso'n awtomatig i filiau trethdalwyr cymwys.
- 7.8 Gall rhyddhad trosiannol fod yn gymhleth i'r awdurdodau lleol ei weinyddu ac fe allai ofyn am newidiadau meddalwedd costus. Dylai darparu rhyddhad yn seiliedig ar y dull cyffredinol a gymerwyd yn dilyn ailbrisiadau blaenorol helpu i leihau'r baich gweinyddol a'r gost i'r awdurdodau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £15,000 ychwanegol i bob awdurdod lleol, sef cyfanswm o £330,000, i dalu costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu newidiadau polisi newydd i gefnogi trethdalwyr yn 2026-27.
- 7.9 Byddai'r costau ychwanegol i drethdalwyr sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 1 yn cael eu lleihau ar gyfer trethdalwyr cymwys. Byddai'n ofynnol i'r rhai nad ydynt yn gymwys dalu'r cynnydd llawn yn eu rhwymedigaeth yn dilyn yr ailbrisio o 1 Ebrill 2026 ymlaen.

Manteision

- 7.10 Mae'r sylfaen drethu ardrethi annomestig yng Nghymru yn gogwyddo'n helaeth tuag at eiddo sydd â gwerthoedd ardrethol isel. Er enghraifft, roedd gan dros 70% o eiddo gyda chynnydd yn eu rhwymedigaeth o fwy na £300 werth ardrethol o hyd at £20,000 cyn ailbrisio. Byddai'r opsiwn hwn, gyda throthwy gwerth ardrethol wedi'i osod ar y lefel honno, yn darparu rhyddhad trosiannol i'r holl drethdalwyr hynny.
- 7.11 Gan y gall ardrethi annomestig fod yn gyfran uwch o orbenion ar gyfer busnesau llai ac y gall fod gan y busnesau hyn hefyd lai o gyfle i addasu i gynnydd mewn costau yn y tymor byrrach (er enghraifft drwy gynyddu prisiau neu leihau costau cynhyrchu), mae'n bosibl y gall busnesau bach gael eu heffeithio gan gynnydd yn eu biliau i raddau cymharol mwy na busnesau mwy, er y bydd hyn yn dibynnu ar natur y busnes. O'r herwydd, gallai targedu

cynllun rhyddhad trosiannol sydd i'w ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru at fusnesau bach fod yn ddefnydd effeithiol o adnoddau ariannol cyfyngedig.

Anfanteision

- 7.12 Mae targedu rhyddhad trosiannol yn seiliedig ar werth ardrethol yn golygu na fyddai unrhyw drethdalwr sy'n meddiannu eiddo mwy (yn ôl gwerth) yn elwa. Gan fod gwerthoedd ardrethol yn ymwneud â'r eiddo yn hytrach na maint y busnes, mae'n bosibl na fydd rhai busnesau bach yn elwa ar ryddhad trosiannol. Mewn cyferbyniad, gall busnesau nad ydynt yn cael eu hystyried yn fach ar sail eu trosiant neu eu helw elwa lle maent yn gweithredu o eiddo cymwys.
- 7.13 Gall rhyddhad trosiannol fod yn gymhleth i'r awdurdodau lleol ei weinyddu ac i drethdalwyr ei ddeall ac amcangyfrif eu rhwymedigaeth. Yn ystod unrhyw gyfnod trosiannol, gall rhai eiddo sydd â phrisiau tebyg dalu biliau ardrethi gwahanol.
- 7.14 Byddai'r rhyddhad trosiannol yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu na fydd yr arian sydd wedi'i ddyrannu iddo ar gael i gefnogi blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru. Gallai hefyd godi disgwyliadau rhanddeiliaid y bydd darparu rhyddhad trosiannol yn nodwedd fynych yn y system ardrethi annomestig yn dilyn y symud at ailbrisiadau tair blynedd.

Opsiwn 3 – Darparu rhyddhad trosiannol i bob eiddo cymwys (gwneud y Rheoliadau)

- 7.15 Opsiwn 3 fyddai gwneud y Rheoliadau i ddarparu rhyddhad trosiannol i bob trethdalwr cymwys sydd â chynnydd mewn rhwymedigaeth o fwy na £300, yn dilyn yr ailbrisiad. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn pennu unrhyw derfyn uchaf ar gymhwysedd ar gyfer rhyddhad trosiannol. Byddai cynnydd mewn rhwymedigaeth yn cael ei gyflwyno'n raddol dros ddwy flynedd, fel y nodir ar gyfer Opsiwn 2.

Costau

- 7.16 Byddai'r opsiwn hwn yn cefnogi amcangyfrif o **25,000 o eiddo**, ar gost o £77m i Lywodraeth Cymru yn 2026-27 a £39m yn 2027-28. Byddai rhyddhad yn cael ei gymhwyso'n awtomatig i filiau trethdalwyr cymwys.
- 7.17 Gall rhyddhad trosiannol fod yn gymhleth i'r awdurdodau lleol ei weinyddu ac fe allai ofyn am newidiadau meddalwedd costus. Dylai darparu rhyddhad yn seiliedig ar y dull cyffredinol a gymerwyd yn dilyn ailbrisiadau blaenorol helpu i leihau'r baich gweinyddol a'r gost i'r awdurdodau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £15,000 ychwanegol i bob awdurdod lleol, sef cyfanswm o £330,000, i dalu costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu newidiadau polisi newydd i gefnogi trethdalwyr yn 2026-27.

- 7.18 Byddai'r costau ychwanegol i drethdalwyr sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 1 yn cael eu lleihau ar gyfer pob trethdalwr sydd â chynnydd mewn rhwymedigaeth o fwy na £300.

Manteision

- 7.19 Byddai'r opsiwn hwn yn cefnogi pob trethdalwr sydd â chynnydd mewn rhwymedigaeth o fwy na £300. Byddai'n llawer mwy hael nag Opsiwn 2 ac yn cyd-fynd â'r rhyddhad a ddarparwyd yn dilyn ailbrisiad 2023.
- 7.20 Gallai llawer o drethdalwyr ar gyfer eiddo canolig a mawr gael trafferth i dalu eu cynnydd llawn mewn rhwymedigaeth yn y flwyddyn gyntaf yn dilyn ailbrisio. Gallai rhai o'r trethdalwyr hyn hefyd weld y cynnydd mwyaf mewn rhwymedigaeth. Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod pob rhan o'r sylfaen drethu yn cael ei chefnogi mewn modd syml a chyson.

Anfanteision

- 7.21 Byddai darparu rhyddhad trosiannol ar sail ehangach yn fwy costus nag Opsiynau 1 a 2. Byddai rhai busnesau proffidiol iawn, a allai amsugno'r cynnydd llawn yn eu rhwymedigaeth yn hawdd, yn elwa ar ryddhad nad oes ei angen arnynt o reidrwydd.
- 7.22 Gall rhyddhad trosiannol fod yn gymhleth i'r awdurdodau lleol ei weinyddu ac i drethdalwyr ei ddeall ac amcangyfrif eu rhwymedigaeth. Yn ystod unrhyw gyfnod trosiannol, gall rhai eiddo sydd â phrisiau tebyg dalu biliau ardrethi gwahanol.
- 7.23 Byddai'r rhyddhad trosiannol yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu na fyddai'r arian sydd wedi'i ddyrannu iddo ar gael i gefnogi blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru. Gallai hefyd godi disgwyliadau rhanddeiliaid y bydd darparu rhyddhad trosiannol yn nodwedd fynych yn y system ardrethi annomestig yn dilyn y symud at ailbrisiadau tair blynedd.

8. Crynodeb o'r opsiynau

- 8.1 Ni fyddai gwneud dim yn darparu rhyddhad trosiannol i unrhyw drethdalwyr yng Nghymru y cynyddir eu rhwymedigaeth ardrethi annomestig o ganlyniad i'r ailbrisiad a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2026. Felly, nid Opsiwn 1 yw'r dull a ffefrir.
- 8.2 At ei gilydd, Opsiwn 3 yw'r dull a ffefrir. Mae'r opsiwn hwn yn ystyried y cymhwysedd ar gyfer rhyddhad trosiannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr ac yn gwneud defnydd o'r cyllid canlyniadol cysylltiedig i Gymru. Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer y dull a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 3 Rhagfyr 2025.

9. Dyletswyddau

- 9.1 ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***. Bydd darparu rhyddhad trosiannol yn cynorthwyo trethdalwyr cymwys yr effeithir arnynt gan gynydd yn eu rhwymedigaeth ardrethi annomestig yn dilyn yr ailbrisio, gan gefnogi busnesau a'r economi yng Nghymru. Bydd hyn yn cyfrannu at un o'r nodau llesiant, sef "Cymru lewyrchus".
- 9.2 ***Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn***. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.
- 9.3 ***Y Gymraeg***. Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal wedi'i nodi mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth hon.
- 9.4 ***Cydraddoldeb***. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).
- 9.5 ***Y sector gwirfoddol***. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar y sector gwirfoddol.

10. Asesu'r gystadleuaeth

- 10.1 Mae prawf hidlo cystadleuaeth wedi'i gynnal ar y Rheoliadau a bernir bod y risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn isel.